

Mynd i mewn i'r dirgelwch

“Yn wir, rwyf wedi mynegi pethau nad oeddwn yn eu deall, pethau rhyfeddol, tu hwnt i'm dirnad.” (adn. 3)

Beth am ddarlenn Job 42:1–6 ac yna myfyrio

Peth arall sy'n rhaid inni ei wneud fel rhai sy'n cymryd rhan yn stori fawr Duw ydy mynd i mewn i'r dirgelwch a'i ddathlu. Beth sydd gen i meddech chi? Gadewch imi ei roi fel hyn: bydd y rhan fwyaf ohonom pan fyddwn yn wynebu rhyw ddirgelwch, yn hytrach na chael ein hunain yn rhan ohono a llawenhau bod Duw yn gwybod mwy na ni, byddwn yn ymdrechu i ddatrys y dirgelwch a'i dorri i lawr yn dameidiau y gallwn ni ddygymod efo nhw. Mae dirgelwch yn erydu'n synnwyr o feistrolaeth; felly, fe awn ati i'w esbonio a'i resymoli.

Wrth gwrs, gellir esbonio rhai o fwriadau “dirgel” Duw. Mae'r bwriad rhamantus y buom yn sôn amdano'n gynharach yn y rhifyn hwn, yn rhywbeth y medrwn ni ei amgyffred unwaith y caiff ei esbonio. Allwn ni ddim, fodd bynnag, esbonio rhai pethau sy'n digwydd inni, faint mor galed bynnag y ceisiwn wneud synnwyr ohonyn nhw, oherwydd yr ydym ni, fel y dywedodd C.S. Lewis, yn teithio “gyda'n cefnau at yr injan”. Allwn ni ddim gweld beth mae'r gyrrwr yn ei weld o'i flaen. Mae'n rhaid inni, felly, fynd i mewn i'r dirgelion hyn a'u dathlu nhw, gan ymddiried bod ein bywydau mewn dwylo diogel. Mae dirgelwch yn ein herio ni i weld faint rydym ni'n fodlon ymddiried. Mae Duw yn caniatáu pethau i ddigwydd inni nad oes gennym ni ddim esboniad amlwg aryn nhw, ac, felly, mae'n rhaid inni ildio i'r hyn mae Duw'n ei wneud gydag ymddiriedaeth lwyr ynddo ef.

Sonia C.S. Lewis am ferch o'r enw Lucy yn un o'i straeon, ac mae hi'n gofyn i gymeriad arall, Mr Beaver, ynglŷn ag Aslan y Llew (symbol o Grist): “Ydy o'n ddiogel?” “Nac ydy,” meddai Mr. Beaver, “Dydy o ddim yn ddiogel, ond mae o'n dda.” Dydy'r byd yr ydym ni'n byw ynddo ddim yn ddiogel, ond mae Duw yn dda. Rhaid inni ddal ati i gredu hynny, hyd yn oed yn wyneb y dyfnaf o ddirgelion.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ioan 13:3–7;

Rhuf. 11:2–5

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy'n cael ei addo inni pan nad ydym ni'n deall?
2. Beth yw graddfa darpariaeth gudd Duw o'i chymharu â hunandosturi Elias?

Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, cymer fy llaw a cherdda gyda mi trwy bob sefyllfa o ddirgelwch y caf fy hun ynddi. A helpa fi i gofio, er y gall bywyd ar brydiau fod yn ddrwg, yr wyt ti bob amser yn dda. Yn enw Iesu. Amen.